**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Busnes

**National Assembly for Wales**
Business Committee

Mick Antoniw AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

09 Ebrill 2020

Annwyl Mick,

**Swyddogaethau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Ebrill 2020; fe'i trafodwyd yn y Pwyllgor Busnes ar 3 Ebrill.

Mewn ymateb i argyfwng iechyd cyhoeddus Coronafeirws Covid-19 sy'n datblygu'n gyflym, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno ar broses dros dro ar gyfer ystyried is-ddeddfwriaeth, sy'n golygu datgymhwyso Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3. Mae copi o'r broses hon ynghlwm; bydd yn weithredol hyd nes y nodir yn wahanol.

Bydd y Pwyllgor Busnes yn dychwelyd at y mater yn y cyfarfod nesaf. Bydd hyn yn digwydd yng nghyd-destun trafodaeth ehangach ar waith y pwyllgorau yn gyffredinol dros y cyfnod i ddod.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i swyddogion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am helpu'r Pwyllgor Busnes i ddatblygu ei weithdrefnau brys yn ystod y sefyllfa bresennol.

Yn gywir

**Elin Jones AC**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddSiambr@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/PwyllgorBusnes
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddChamber@assembly.wales
www.assembly.wales/BusinessCommittee
0300 200 6565